

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 2ail Awst, 2021**, yng Nghanolfan Bryn croes o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd Gwenan Griffith (Is-Gadeiryddes)  
Y Cyngorwyr David Brunelli, Elin Hughes, Ifor Owen, Glyn Roberts, Glenys Williams, Siôn Williams  
Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)  
Ymddiheuriad: Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Michael Strain, Carys E. Williams

### **37. MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod arbennig – pwrpas y cyfarfod oedd i gael arweiniad beth fyddai'r aelodau yn hoffi i'r is-bwyllgor drafod yn y cyfarfod a drefnwyd gan Reolwr Meddygfa Botwnnog ar gyfer 5ed Awst, 2021.

Adroddwyd nad oedd llythyr wedi ei anfon i'r Aelodau Seneddol a'r Gweinidog lechyd er rhoddi cyfle yn y lle cyntaf i dderbyn ymateb y Feddygfa ar 5ed Awst.

Nodwyd nifer o gwynion – gweler nodiadau baratowyd ar gyfer yr cyfarfod yn amgaeedig.

Nododd y Cadeirydd na fyddai'n gallu mynychu'r cyfarfod oherwydd pwysau gwaith a phenderfynwyd gofyn i'r Cyngorydd Glyn Roberts gymryd ei le.

Yr is-bwyllgor felly fydd Y Cyngorydd Gwenan Griffith (yr Is-Gadeiryddes), Y Cyngorydd Glyn Roberts, Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir) ynghyd a'r Clarc.

### **38. CEISIADAU CYNLLUNIO**

#### **Cyflwynwyd**

- (a) Cais C21/0666/32/LL – adeilad amaethyddol arfaethedig i orchuddio clamp silwair - Crugeran, Sarn Mellteyrn.
- (b) Cais C21/0667/32/LL – adeilad amaethyddol arfaethedig dros glamp silwair presennol - Crugeran, Sarn Mellteyrn.
- (c) Cais C21/0703/32/TC – defnyddio carafan sefydlog fel llety gwyliau – Fferm Gelliwig, Botwnnog.
- (d) Cais C21/0712/32/LL – adeiladu adeilad amaethyddol yn Fron Deg, Bryn croes.  
(Datganodd Y Cyngorydd Glyn Roberts ddiddordeb yn y cais hwn ac ymneilltuodd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).

**Penderfynwyd** cefnogi'r pedwar cais.

### **39. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Mrs. Gwyneth Evans, Pont-y-Gof, Botwnnog, yn cwyno ynglyn a'r diffyg gweledig wrth droi o gyfeiriad pentref Botwnnog am Rhydgoch ac hefyd y gor-yrru sydd wrth ddod i lawr o Llys Meddyg i'r ffordd yn arwain am Y Rhiw.

**Penderfynwyd** tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at y ddwy gŵyn.

**Yn y cyswllt hwn** cyflwynwyd ymateb yr Uwch Beiriannydd, Adran Ffyrdd Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor ym mis Gorffennaf fel a ganlyn:

- a) Nid ydym wedi derbyn cwynion arall am safon y barbio yn yr ardal hon. O beth ydw'i wedi ei weld o amgylch y fro, does dim toriad i weld yn 'ffwrdd a hi' ac nid wyf yn cytuno bod safon y gwaith wedi gostwng yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r ffordd o dorri wedi newid yn ystod y cyfnod hwn, penderfynwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth i roi toriad un wanaf yn unig ar ffyrdd dosbarth 1 a 2 gyda thoriad llawn ar ffyrdd dosbarth 3 a 4. Mae'r contractwr wedi bod yn llwyddiannus drwy proses tendro. Rhoddwyd y cynnig i sawl contractwr i dendro (lleol a chenedlaethol) a bydd y tendr torri gwair cyfredol yn dod i ben eleni, a bydd proses tendro o'r newydd yn ail gychwyn ar gyfer tymor torri'r flwyddyn nesaf.
- b) Tir comin sydd yn Rhos Botwnnog ac er bu i'r Archwiliwr Priffyrdd a'r Cynghorydd G. Williams gytuno mai dim cyfrifoldeb yr Adran Priffyrdd ydyw'r safle rydym am drefnu i'r gordyfiant gael ei dorri yn ôl er mwyn diogelu'r cyhoedd, ac ymgymerir â'r gwaith ar sail 'Heb Ragfarn' i'r dyfodol.
- c) Fe wnawn gysylltu gyda'r contractwr i dorri o amgylch cerrig filltir gyda strimar o hyn allan. O ran ei hadfer, ni welaf fod y niwed yn ddigonol i'w hadnewyddu ac ni ellir profi 100 y 100 mai'r contractwr barbio wnaeth y difrod."

**Penderfynwyd** nodi'r atebiad.

#### 40. **POLISI IAITH CYNGHORAU CYMUNED A THREE**

**Cyflwynwyd** gwybodaeth gan Glarc Cyngor Tref Nefyn y bwriedir cynnal cyfarfod ar 'zoom' yn ystod mis Awst i drafod yr uchod. Bydd angen cael gwybodaeth pwy fydd a diddordeb yn mynychu'r cyfarfod fel y gellir anfon y linc drwodd pan y'i derbynir.

**Dywedodd** Y Cynghorydd Elin Hughes a Siôn Williams eu bod yn dymuno ymuno os byddai'r dyddiad a'r amser yn dderbyniol.